# Ymateb Cyngor Gwynedd. Ymgynghoriad: Rhwystrau i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn llwyddiannus

Dymunwn ddiolch yn fawr am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad uchod. Mae Cyngor Gwynedd wedi rhoddi ystyriaeth lawn i'r chwe mater a gyflwynwyd gennych a gwelwch ein sylwadau isod. Rydym yn nodi fod cyfle yn ogystal i ymhelaethu ar y pwyntiau isod trwy gymryd rhan yn yr ymgynghorid o gyflwyno tystiolaeth ar lafar ym mis Ionawr 2021, a chroesawn y cyfle yna yn ogystal.

**1.Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.**

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.

Mae trefniadau yn eu lle i geisio sicrhau fod y Cyngor yn ystyried yr hirdymor, trwy gydweithio ac ystyried pobl o bob oedran wrth wneud penderfyniadau. Mae gweithredu yn y modd hwn yn ein galluogi i gwrdd ag anghenion presennol ein cymunedau gan sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol.

Mae adroddiadau sy'n dod gerbron y Cabinet yn cael eu cyflwyno ymlaen llaw er mwyn eu hadolygu i gadw golwg ar sefyllfaoedd lle efallai nad oes sylw priodol wedi eu rhoi i'r egwyddorion. Drwy hyn y gobaith yw y byddwn yn gwreiddio'r egwyddorion yn naturiol yn hytrach na thicio bocsys ond amser a ddengys a fyddwn yn llwyddiannus.

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf yn amrywio a chadarnhawyd hyn mewn archwiliad diweddar gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol. Mewn ymateb byddwn yn cynnal hyfforddiant pellach er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth Uwch Reolwyr/Rheolwyr/Swyddogion Prosiect o egwyddorion y Deddf.

**2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus roi'r Ddeddf ar waith a pha mor effeithiol y maent wedi cael eu defnyddio.**

Nid ydym fel Cyngor wedi derbyn unrhyw adnoddau ychwanegol i roi'r Ddeddf ar waith.

Er yn derbyn yr angen i fod yn cwrdd a gofynion y Ddeddf o fewn adnoddau presennol mae pwysau ariannol a'r angen i wneud arbedion parhaol dros y blynyddoedd diwethaf wedi gosod pwysau ychwanegol ar allu y Cyngor i gyflawni'r gwasanaethau sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer trigolion Gwynedd. Gall hyn hefyd olygu nad yw hi bob amser yn ymarferol i ddilyn egwyddorion y Ddeddf ac edrych i'r dyfodol.

Bydd yr anghenion ychwanegol ar gyfer sefydlogi ac ailadeiladu o'r argyfwng Covid-19 hefyd yn gosod sialens ychwanegol.

**3. Y cymorth y mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei roi i gyrff cyhoeddus.**

Mae'r cymorth sy'n cael ei roi gan swyddfa'r Comisiynydd i gyrff cyhoeddus yn gallu bod yn ddefnyddiol. Er hynny mae'r disgwyliad arnom i ymateb a thystiolaethu yn gallu bod yn feichus ar brydiau, ar ben disgwyliadau statudol eraill.

Mae adroddiadau a dderbynnir o swyddfa'r Comisiynydd yn aml yn rhy hir a heb eu teilwra'n benodol gan roi ystyriaeth i sefyllfa ariannol, strategol a ddaearyddol ein sefydliad.

O safbwynt y gefnogaeth ymarferol buasai cael un pwynt cyswllt yn fuddiol er mwyn cryfhau'r cydweithio, cefnogi, a rhannu ymarfer da.

**4. Rôl arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru**

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig yn arwain trwy esiampl. Tra ceir llawer o ymarfer da mae hefyd enghreifftiau o ddiffyg cyd-lyniant gwahanol ddeddfwriaeth, integreiddio cyhoeddiadau polisi ac edrych ar gyllidebau mwy hirdymor.

Credwn na chyd-amserwyd yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi cynlluniau llesiant awdurdodau lleol a chynlluniau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Gall Llywodraeth Cymru helpu gyda hyn drwy ailysgrifennu'r gofynion ar gyfer amserlenni cyhoeddi i'r dyfodol

Mae'r Llywodraeth yn gosod targedau heriol i fynd i'r afael ag amryw o'r nodau llesiant e.e. Newid Hinsawdd. Yn yr achos yma buasai cael arweiniad ar ddull cydweithredol o fynd ati i addasu ac ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd yn ddefnyddiol. Sylweddolwn fod hyn yn sefyllfa lle mae angen rhoi seilos traddodiadol gweithio adrannol, diwylliannol sefydliadol amrywiol a rhaniadau gwleidyddol o'r neilltu. Trwy groesawu ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gallwn ystyried ffyrdd o gydweithio ar ddatrysiadau.

**5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu'r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).**

- COVID-19 a'i effaith ar ein trigolion a'n cymunedau – bydd sefydlogi ac ailadeiladu hefyd yn cynnig cyfleoedd.
- Dirwasgiad y Deyrnas Unedig - wrth i effaith Covid 19 ar yr economi ddod i'r amlwg
- Brexit – ei effaith ar economi a llesiant ein cymunedau.
- Mae addasu i'r pum ffordd o weithio yn her, yn enwedig pan mae Gwasanaethau dan straen.

**6. Sut mae sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.**

- Sicrhau cymorth a chefnogaeth ymarferol er mwyn gwreiddio egwyddorion y Ddeddf o fewn sefydliadau.
- Ymddiried mewn sefydliadau i weithredu'r gofynion gan leihau ar yr angen i adrodd a thystiolaethu yn gyson (sy'n medru bod yn llafurus).
- Sicrhau gwell aliniad rhwng yr amserlen ddeddfwriaethol ar gyfer cynlluniau llesiant BGC ac awdurdodau lleol .